**ATODIAD 1 – YMATEB Y CYNGOR**

**CEFNDIR**.

1. Mae Cyngor Gwynedd yn falch o'r cyfle i ymateb i adroddiad cynigion drafft y Comisiwn ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, dyddiedig Ionawr 2018.

2. Bu i'r Cyngor gyflwyno cynigion drafft i'r Comisiwn Ffiniau yn mis Mehefin 2017, ac rydym yn falch fod y Comisiwn wedi ymgorffori 43 ohonynt yn eu cynigion drafft, gyda chytundeb o ran y ffin mewn 2 pellach, ond anghytundeb o ran nifer aelodau ar gyfer y wardiau hynny.

3. Rydym yn parhau i sefyll wrth y cynigion gwreiddiol a roddwyd gan y Cyngor, oedd wedi eu selio ar gwrdd a'r gofynion cyfartaledd fesul aelod, ac hefyd ar ymwybyddiaeth gref o'r ardal lleol a'r datrysiad gorau ar gyfer pobl leol. Mae copi o'r adroddiad gwreiddiol a'r rhesymeg am y cynigion i'w gael yn Atodiad A.

4. Cyn ymhelaethu fesul wardiau a chynigion penodol, mae rhai egwyddorion sylfaenol yr ydym yn dymuno eu pwysleisio.

5. Tra'n derbyn fod yn rhaid i'r Comisiwn anelu at gymhareb etholiadol aelod:etholwr o tua 1:1200 neu mor agos a phosib at hynny, mae Cyngor Gwynedd yn pwysleisio natur wledig y Sir a'r hyn sy'n synhwyrol o ran cysylltiadau cymunedol naturiol, a hynny er mwyn sicrhau cynrychiolaeth effeithiol ar gyfer pobl Gwynedd. Gall hynny olygu gwyro oddi wrth yr hyn sy'n edrych yn weledol ar fap sydd am arwain at y gymhareb orau, i gymhareb fymryn llai cytbwys ond cynrychiolaeth ddemocrataidd llawer mwy synhwyrol i'r gymuned.

6. Fel egwyddor sylfaenol, rydym eisoes wedi nodi ein bod yn erbyn wardiau etholiadol dau aelod neu fwy gan nad yw'n gyson gyda'r egwyddor sylfaenol sydd gan y Comisiwn o sicrhau fod gan bob cynghorydd gymhareb etholiadol cyfartal, nac ychwaith yr amcan o sicrhau llywodraeth leol efffeithiol a chyfleus, fel sy'n ofynnol iddynt dalu slyw iddo.

7. Nodwn eich bod wedi datgan yn eich dogfen polisi ac arfer 2016 ei fod yn ofynnol i geisio sicrhau bod yna gymhareb cyson o etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol ym mhob ward etholiadol.

8. Tybiwn mai pwrpas y gofyn yma yw sicrhau fod yna lwyth gwaith a chynrychiolaeth lled gyfartal ar draws ardal y Cyngor.

9. Mae'r Cyngor yn gyrf o'r farn os ydych am greu etholaethau mwy nag un aelod, mae hynny yn mwynd yn groes i'r egwyddor yma.

10. Gan nad yw  aelodau yn gallu trefnu ar adeg etholiad i un aelod gynrychioli hanner yr etholaeth ac un arall gynrychioli yr hanner arall, yr hyn sy'n cael ei greu wrth greu etholaeth dau aelod dyweder yw etholaeth lle mae yna ddau aelod yn gorfod cynrychioli dwbl y rhif etholwyr.

11. Mewn ardaloedd lle mae yna wahaniaeth gwleidyddol o sylwedd, mae o hefyd yn gallu arwain at bleidleisiau unigolion yn golygu llai am nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yng nghyfansoddiad aelodau'r Cyngor.

12. Er enghraifft pe byddem yn cymryd dwy etholaeth gyda 1,000 o etholwyr yr un; Ethholaeth A yn cynnwys 800 o etholwyr Plaid X a 200 o etholwyr Plaid Z; gydag Etholaeth B yn cynnwys 400 etholwyr Plaid X a 600 etholwyr Plaid Z, o'u cadw ar wahan, byddai Plaid X yn cael un aelod a Phlaid Z yn cael un.  Fodd bynnag, o greu etholaeth 2 aelod, byddai Plaid X yn cael 2 aelod a Phlaid Z ddim yn cael ei chynrychioli o gwbl.

13. Yn ogystal, rydym yn parhau i atgyfnerthu'r farn a nodwyd yn wreiddiol y dylai'r Comisiwn Ffiniau roi sylw i anghenion cynrychiolaeth leol effeithiol ac effaith y boblogaeth sydd ddim ar y gofrestr etholwyr ar bwynt arbennig mewn amser, wrth lunio ei gynigion.  Yn benodol, mae'r galw ar lwyth gwaith sydd yn codi yn sgil presenoldeb myfyrwyr, ymwelwyr, perchnogion ail-gartrefi ac eraill sydd ddim ar y gofrestr etholwyr leol yn golygu bod yn rhaid rhoi sylw i hynny wrth bennu maint etholaethau.

14. Wrth ystyried enwau i'r wardiau, rydym yn cefnogi egwyddor y Comisiwn Ffiniau i gysoni'r enwau yn y Gymraeg a'r Saesneg.   Gweler sylwadau penodol ynghylch enwau wardiau o bwynt 38 ymlaen.

15. Mae'r Cyngor yn cydnabod a gwerthfawrogi fod y Comisiwn Ffiniau wedi cymeryd ystyriaeth o lais lleol a derbyn cynigion y Cyngor mewn nifer fawr o wardiau.  Fodd bynnag, rydym yn parhau i sefyll gyda'n cynigion gwreiddiol oni nodir yn wahanol isod.

**<u>SYLWADAU AM GYNIGION PENODOL</u>**

**GERLAN AC OGWEN**

16. Mae ward Gerlan yn bresenol yn cynnwys 1615 o etholwyr (rhagamcenir 1637), sydd 34% uwchlaw y cyfartaledd.  Mae ward Ogwen yn bresenol yn cynnwys 1609 o etholwyr (rhagamcenir 1523) sydd 33% yn uwch na'r cyfartaledd.

17. Mae'r Comisiwn Ffiniau wedi cynnig ymuno y ddwy ward a chreu ward aml-aelod gyda 3 aelod a 3,224 (rhagamcenir 3160) o etholwyr, sydd 11% yn is na'r cyfartaledd.

18. Nid yw'r Cyngor yn cyd-fynd â chynnig y Comisiwn i greu ward aml-aelod am y rhesymau a nodwyd yn 4 uchod, sef sicrhau atebolrwydd a chynrychiolaeth ddemocrataidd clir i'r etholwyr. Mae'r Cyngor o'r farn fod ateb amgen i'r sefyllfa yn Ardal Bethesda sydd a) yn osgoi ward aml aelod a b) yn parhau i ymateb i ofynion y Comisiwn Ffiniau ynghylch cymhareb cynrychiolaeth etholwyr: aelod. Gan fod cyfanswm o 3,224 o etholwyr (rhagamcenir 3160) yn yr ardal, mae'r Cyngor yn awgrymu y dylid ffurfio tair ward unigol o'r newyd, sef wardiau Rachub, Gerlan a Bethesda (gweler y map yn Atodiad B).

19. Mae'r argymhelliad yn seiliedig ar ymwybyddiaeth gref o'r gymdeithas leol. Yn hanesyddol, tri pentref bychan oedd y dair ardal/ ward sydd wedi eu diffinio. Wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt, mae'r pentrefi wedi yfu a'u cyrion wedi mynd yn agos iawn at ei gilydd, fodd bynnag, mae gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd. Mae Rachub a Gerlan yn ardaloedd mwy gwledig o gymharu ag ardal Ogwen sy'n ymgorffori ochor drefol Bethesda.

20. Argymhellir newid y ffiniau fel bo'r ffin newydd yn rhannu rhwng ward Ogwen a Rachub i lawr Lon Newydd (Coetmor New Road) gan ymuno â Ffordd Bangor gan ail ymuno â'r hen ffin yno. Mae llunio'r ffin newydd i lawr Lon Coetmor ac i lawr y ffordd a adweinir yn lleol fel Allt Bethania, am sicrhau fod yr etholwyr yn yr ardal wledig o "Ardal Bethesda" yn ward Rachub, gan gadw'r ardal mwyaf poblog a threfol o Ffordd Bangor yn ward mwy trefol Ogwen. Byddai hyn yn arwain at greu ward Rachub newydd o 970 o etholwyr, sydd 19% yn is na'r cyfartaledd. Dylid ystyried fod dau ganiatâd cynllunio yn bodoli ar gyfer y ward hon, a fydd yn ychwanegu nifer pellach o etholwyr ymhen amser.

21. Yn ogystal, argymhellir addasu y ffiniau yng Nghogledd Ward Ogwen, gan newid y ffin ar gyfer ward Gerlan fel ei fod yn dilyn ffos Coetmor (fel yn gyfredol) hyd at Ffordd Carneddi, gan droi i'r de ar hyd gan ddilyn llwybr cerdded tu cefn i'r Hen Iard Lo gan gwmpasu y stad ddiwydiannol Pant Dreiniog, a chysylltu nol gyda Stryd Cefnfaes gan ymuno wedyn gyda Ffordd Ffrydlas, a pharhau wedyn i fyny Ffordd Newydd Gerlan hyd cyrraedd y ffiniau gwreiddiol. Credwn fod hyn yn rhesymegol gan ei fod yn cadw'r ardal a adawenir fel "Carneddi" yn gyfangwbl o fewn ward Gerlan. Byddai'n arwain at greu Ward Gerlan Newydd o 1,115 o etholwyr (914 Gerlan wreiddiol a 201 wedi trosglwyddo o Ogwen), sydd 7.1% yn is na'r cyfartaledd.

22. Sgil effaith hyn wedyn yw creu ward drefol newydd o'r hen ward Ogwen, fyddai'n cynnwys 1,139 o etholwyr (1609 gwreiddiol llai 269 i Rachub a 201 i Gerlan), sydd 5% yn is na'r cyfataledd. Credir y byddai creu'r ffinaiu newydd i'r hen ward Ogwen yn cadw "llawr gwlad" y dyffryn mewn clwstwr twt rhesymegol, yn agos iawn at yr ardal a adwaenir yn draddodiadol fel 'Bethesda'. I osgoi dryswch gydag ardal ehangach Dyffryn Ogwen, argymhellwn y dylid newid enw ward Ogwen i ward Bethesda neu ward Canol Bethesda.

23. Mae'r Cyngor o'r farn fod y datrysiad uchod yn ateb gofynion y Comisiwn o ran cymhareb niferoedd, ynghyd a sicrhau datrysiad lleol synhwyrol.

**ARDAL PEN LLYN – WARDIAU ABERDARON, BOTWNNOG, LLANENGAN, ABERSOCH A LLANBEDROG.**

24. Mae'r Cyngor yn cydnabod fod yn rhaid gwneud newid yn yr ardal er mwyn cadw o fewn canllawiau'r Comisiwn. Mae'r Cyngor yn parhau o'r farn fod y cynigion a roddwyd yn wreidiol gan y Cyngor yn dod a'r datrysiad gorau ar gyfer yr ardal. Tra'n cydnabod fod datrysiad y Comisiwn yn golygu fod yr amrywiad ffigurol yn is na'r amrywiad yn natrysiad y Cyngor, mae datrysiad y Cyngor yn parhau i fod o fewn yr amrywiad o +/- 25% sy'n cael ei ddefnyddio gan y Comsiwn mewn wardiau eraill. Fodd bynnag, mae'r argymhellion hefyd yn sicrhau fod cysylltiadau cymunedol naturiol hefyd yn cael eu parchu.

25. Rydym yn parhau i argymell cyfuno dwy ward Aberdaron a Botwnnog i greu un ward etholiadol o 1,457 o etholwyr – 733 Aberdaron a 724 Botwnnog, (rhagamcenir 1,406), sydd 21.4% uwchlaw'r cyfartaledd. Mae hyn yn adeiladu ar y cysylltiadau cymunedol naturiol sydd yn yr ardal, ac am arwain at ddatrysiad mwy synhwyrol na rhannu cymdeithas Botwnnog. Wrth ymuno y ddwy ward, mae'r Aelodau etholedig lleol yn awgrymu rhoi enw newydd i'r ward, sef Ward "Pen draw Llyn" i adlewyrchu y ward newydd a'i sefyllfa unigryw. (Gweler pwynt 30 ymlaen ar gyfer sylwadau am enwau wardiau).

26. Bu i'r Cyngor hefyd gynnig ward newydd arall drwy gyfuno ward arfordirol Abersoch (523 o etholwyr) gyda ward Cyngor Cymuned Llanengan (333 o etholwyr) a ward Cyngor Cymuned Llangian hyd at ffin newydd naturiol wedi ei chreu gan groesffordd Coed y Fron (fyddai'n cynnwys tua 53 o etholwyr). Mae'r ward newydd hon yn arwain at greu ward o 909 o etholwyr, sydd 24% is na'r cyfartaledd. Mae'r ward newydd hon o 909 o etholwyr unwaith eto yn cryfhau ac ymateb i gysylltiadau lleol. Mae ardaloedd Abersoch a Llanengan yn ardaloedd glan môr lle mae llawer o dwristiaeth, ail gartrefi a chyd-weithio o fewn y cymunedau. Mae cysylltiadau naturiol eraill hefyd megis y Gymuned Eglwysig yn Llanengan a Llangian, a'r Swyddfa Bost. Petai'r Comisiwn Ffiniau yn derbyn yr argymhelliad uchod, yna byddai'r aelodau yn dymuno dewis enw newydd i'r ward. (gweler pwynt 30 ymlaen am sylwadau am enwau wardiau).

27. O dderbyn yr argymhelliad yn 21 uchod, mae'r trydydd ward wedyn yn cyfuno ardal Mynytho (sef gweddill ward etholiadol Llanengan) o groesffordd Coed y Fron (tua 450 o etholwyr) i ymuno â ward etholiadol Llanbedrog (768 o etholwyr). Byddai hyn yn ei dro yn arwain at ward etholiadol newydd Llanbedrog a Myntho, fyddai â 1,218 o etholwyr, sydd 1.5% yn uwch na'r cyfartaledd. Unwaith eto mae'r uchod yn adeiladu ar y cysylltiadau naturiol sydd o fewn y gymdeithas, gyda thraddodiadau tebyg rhwng Mynytho a Llanbedrog, megis amaeth, y capeli a'r gymdeithas gymreig.

**ARDAL DOLGELLAU**

28. Ardal arall y mae'r Comisiwn Ffiniau yn awgrymu newid i fod yn ward aml-aelod yw Ardal Dolgellau. Mae'r sefyllfa gyfredol yn Nolgellau yn golygu fod dwy ward, Gogledd Dolgellau gyda 900 o etholwyr (rhagamcenir 871) yn 25% is na'r cyfartaledd, a De Dolgellau yn 1,044 o etholwyr (rhagamcenir 970), sydd 14% islaw'r cyfartaledd. Roeddem wedi argymell cadw at y trefniadau cyfredol gan eu bod o fewn y ffin +/- 25% o'r cyfartaledd. Mae'r Comisiwn Ffiniau yn awgrymu cyfuno'r wardiau i greu un ward etholiadol o 1,944 o etholwyr (rhagamcan1,841) yn cael ei gynrychioli gan ddau aelod, sydd 20% yn is na'r cyfartaledd.

29. Yn unol ag egwyddor sylfaenol y Cyngor, rydym yn gwrthwynebu wardiau aml aelod am y rhesymau a nodwyd eisoes. Yn wyneb y ffaith nad yw'r gymhariaeth bresennol lawer gwahanol i'r amrywiaeth y mae'r Comisiwn ei hun yn fodlon ei dderbyn mewn ardaloedd eraill, nid ydym yn gweld fod angen newid yma, ac mai newid er mwyn newid a argymhellir gan y Comission. Byddem yn parhau i bwyso am gadw pethau fel y maent. Fodd bynna, os yw'r Comisiwn yn mynnu bod angen newid, maae'r Cyngor wedi datblygu datrysiad amgen ar gyfer yr ardal er mwyn dod a'r niferoedd yn fwy cytbwys. Argymhellir addasu ffin ward De Dolgellau (gweler map atodiad C ar gyfer y ffin manwl) gan barhau i ddilyn Ffordd y Gadair a pheidio troi fyny Ffordd Maes Caled wrth Penbryn. Byddai hynny yn arwain at oddeutu 85 o etholwyr yn ychwanegol yn ward Gogledd Dolgellau a chysondeb i'r etholwyr sydd i'r gogledd o Ffordd y Gadair yn cael eu cynrychioli yn ward mwy gwledig Gogledd Dolgellau. Byddai hynny yn arwain at ward Gogledd Dolgellau o 985 o etholwyr, sydd 17.9% islaw'r cyfartaledd, a ward De Dolgellau gyda 959 o etholwyr, sydd 20.1% islaw'r cyfartaledd. Gweler Atodiad Ch ar gyfer map o'r wardiau newydd a argymhellir.

**ARDAL BETHEL A FELINHELI**

30. Mae ardal Bethel ac ardal Y Felinheli yn ddwy ward ar wahan o fewn ardal cyfagos. Mae 1,007 o etholwyr (rhagamcenir 995) yn ward Bethel, sydd 17% islaw'r cyfartaledd cyfredol. Mae gan ward Y Felinheli 1,694 o etholwyr (rhagamcenir 1,736), sydd 40% yn uwch na'r cyfartaledd. Mae'r Comsiwn Ffiniau wedi argymell ymuno y ddwy ward er mwyn creu un ward etholiadol newydd o'r enw Bethel a'r Felinheli fyddai â 2,701 o etholwyr (rhagamcenir 2,731) sydd 12% uwchlaw'r cyfartaledd, a fyddai'n cael ei gynrychioli gan ddau aelod.

31. Yn unol â'r sylwadau blaenorol, rydym yn gwrthwynebu wardiau aml-aelod am y rhesymau a nodwyd eisoes. Rydym yn parhau i sefyll wrth ein cynnig gwreiddiol sef cadw'r ddwy ward ar wahan fel ag y maent yn gyfredol. Nid oes cysylltiadau cymunedol sy'n dod a'r ddwy ardal at ei gilydd, er agosrwydd y ddau bentref ar fap.

32. Mae ward Bethel, er ei fod yn gymharol fychan yn ôl canllawiau'r Comisiwn, yn bentref â'i hunaniaeth ei hun fel uned ac yn gymuned naturiol sydd yn tyfu a datblygu ac mae'n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol. Mae cysylltiadau cymunedol gydag ardal Llanddeiniolen a Llanrug. Mae gan ward Y Felinheli ar y llaw arall ei hunaniaeth ei hun fel uned, mae'n gymuned hunan-gynhaliol yn ddiwylliannol a chymunedol.

33. Gan dderbyn fod etholaeth Y Felinheli 40% uwchlaw'r cyfartaledd, ni ellir berwi popeth i lawr i fesur mathemategol, ac yn yr achos yma 'rydym yn gryf o'r farn fod yn rhaid derbyn un ethlaeth sydd yn fwy na'r arfer gan nad yw'r opsiwn a argymhelir gan y Comisiwn yn gwneud synnwyr cymunedol.

34. Ar ben hynny, yn unol a'n dadleuon am etholaethau aml aelod – nid creu cytbwysedd cynrychioladol y byddem ond creu sefyllfa lle byddai'n rhaid i'r ddau aelod gynrychioli etholaeth sydd 123% uwchlaw'r cyfartaledd.

**ARDAL HARLECH A LLANBEDR**

35. Ardal arall y mae'r Comsiwn Ffiniau wedi awgrymu ar gyfer ward aml aelod yw ardal Harlech a Llanbedr. Nodwn fod yna ymdeimlad lleol dros gytuno i syniadau'r Comisiwn Ffiniau ar gyfer yr ardal, ond fel yr ydym wedi nodi yn barod, nid ydym yn cytuno gyda wardiau aml aelod.

**ARDAL BANGOR**

36. Mae'r Cyngor yn falch fod y Comisiwn Ffiniau wedi ystyried a derbyn sylwadau'r Cyngor ynghylch newid ffiniau o fewn ardal Bangor, gyda'r effaith ar ardal presenol Deiniol, Hirael, Hendre, Garth a Menai. Fodd bynnag, tra bo'r ffiniau wedi newid, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn fod amgylchiadau unigryw y wardiau hyn yn sgil mewnlif sylweddol myfyrwyr yn ward Garth a Menai, a natur difreintiedig ward Marchog yn golygu fod baich ychwanegol ar gynghorwyr sy'n eu cynrychiol. Yn unol â'r hyn a nodwyd yng nghynigion gwreiddiol y Cyngor, rydym o'r farn fod angen dau aelod i gynrychioli'r wardiau hyn.

**ARDALOEDD ERAILL**

37. Yn ychwanegol, mae'r ardaloedd a nodir isod yn rhai lle mae'r Comisiwn Ffiniau wedi datgan cynigion gwahanol i'r cynigion gwreiddiol a wnaeth y Cyngor. Fel a nodwyd eisoes, rydym yn parhau i fod o'r farn fod y cynigion a wnaethom yn wreiddiol yn fwy synhwyrol i'r ardaloedd. Gellir gweld y cyfiawnhad yn yr adroddiad gwreiddiol, sydd ar gael yn Atodiad A.

- Ardal Arllechwedd a Pentir
- Ardal Bontnewydd, Waunfawr, Llanwnda a Thalysarn
- Ardal Porthmadog-Tremadog, Penrhyndeudraeth
- Ardal Diffwys, Maenofferen a Teigl
- Ardal Tywyn

**ENWAU Y WARDIAU**

38. Fel a nodwyd yn 14 uchod, rydym yn cefnogi egwyddor y Comisiwn Ffiniau i gysoni enwau'r wardiau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

39. Mae'r Comisiwn Ffiniau wedi awgrymu newid penodol i enwau rhai wardiau. Rhestrir isod yr enwau wardiau newydd yr ydym yn eu cefnogi:
    - Llanaelhaearn — Yr Eifl
    - Bryn-crug/Llanfihangel a — Bro Dysynni
      Llangelynnig — Arthog a Llangelynnin

40. Mae dwy ward arall lle mae'r Comisiwn yn awgrymu newid iddynt, ond lle nad yw'r Cyngor yn cyd-weld gyda'r newid hwnnw.
    - Yn Ardal Bangor, argymhelliad y Comisiwn yw creu un ward newydd o'r enw Bethesda. Mae'r Cyngor wedi argymell datrysiad gwahanol, gan greu tair ward newydd o'r enw Gerlan, Rachub a Bethesda neu Canol Bethesda.
    - Yn ardal Pen Llyn, mae'r Comisiwn yn awgrymu cyfuno ward Aberdaron gyda rhan o Botwnnog a'i alw yn 'Aberdaron', ond mae'r Cyngor yn argymell y dylid ymuno'r ddwy ward gan alw'r ward newydd yn 'Ward Pen draw Llyn'. Pe na bae sylwadau'r Cyngor yn cael eu derbyn, rydym o'r farn y byddai galw'r ward sy'n cyfuno Aberdaron a rhan o Botwnnog yn "Aberdaron", a galw y ward newydd arall y mae'r Comisiwn yn ei ffafrio trwy ymuno gweddill Botwnnog gyda Llanengan yn 'Botwnnog a Llanengan' yn gam-arweiniol ac yn ddryslyd iawn i bobl leol.

41. Mae barn gref ynghylch gwrthwynebu newid enw ward Abermaw i Abermo gan y gallai arwain at gryn ddryswch. Abermaw a ddefnyddir yn lleol yng Ngwynedd a hynny oherwydd mai aber yr afon Mawddach ydyw. Rydym yn annog cadw at yr enw Abermaw, neu os am newid, defnyddio Abermawddach, ond nid Abermo.

42. Yn ogystal, mae ambell egwyddor y dylai'r Comsiwn ei ystyried wrth feddwl am enwau'r wardiau. Noder fod posibilrwydd o greu dryswch wrth gael yr un enw ar ddwy ward mewn ardaloedd gwahanol ee Hendre yng Nghaernarfon ac ym Mangor. Yn ogystal, nodir fod argymhelliad y Comisiwn ar gyfer sillafiad enwau rhai wardiau yn amrywio oddi wrth ddealltwriaeth leol o'r sillafu ee Aber-erch yn lle Abererch. Argymhellir cadw at y sillafiad lleol.